WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol: 2015-16

# Cyngor Sir Powys

Cyhoeddwyd: Mehefin 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 361A2016



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Colin Davies a Justine Morgan o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 4

Gwaith archwilio perfformiad 2015-16 5

Mae'r Cyngor, gyda gwell trefniadau rheoli ariannol, yn parhau i wneud cynnydd yn ei feysydd â blaenoriaeth ond mae ganddo ragor o waith i'w wneud i roi sicrwydd bod ei drefniadau llywodraethu sefydledig yn gadarn

Argymhellion 6

## Adroddiad manwl

Perfformiad

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn ei feysydd â blaenoriaeth ac mae'n parhau i gydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009 9

Y defnydd o adnoddau

Mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau rheoli ariannol ond mae'n cydnabod bod angen iddo sicrhau mwy o gysondeb rhwng perfformiad gwasanaethau a pherfformiad ariannol 17

Llywodraethu

Mae gan y Cyngor ragor o waith i'w wneud i roi sicrwydd bod ei drefniadau llywodraethu sefydledig yn gadarn a'i fod yn ystyried adroddiadau rheoleiddio allanol yn llawn ac yn mynd i'r afael â hwy 19

## Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 24

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 25

Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16 27

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Sir Powys (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Gorffennaf 2015. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg. Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Gwaith archwilio perfformiad 2015-16

5 Wrth bennu'r amrywiaeth o waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau'r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso'r Cyngor ei hun. Yn ystod 2015-16, ymgymerwyd â gwaith asesu gwelliant o dan dair thema: y defnydd o adnoddau; llywodraethu; a pherfformiad.

6 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y 'rheoleiddwyr perthnasol', isod.

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Swyddfa Archwilio Cymru: Y Defnydd o Adnoddau: Asesiad Cydnerthedd Ariannol | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. Bydd y Cyngor yn datblygu cynllun gweithredu i ymateb i'r meysydd gwan a nodwyd yn ein hadroddiad. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Perfformiad: Archwiliad Blynyddol o'r 'Cynllun Gwella' | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella a gadarnhaodd fod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion statudol. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Perfformiad: Archwiliad Blynyddol o'r 'Asesiad o Berfformiad' | Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig y Cyngor, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad, a gadarnhaodd fod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion statudol. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Llywodraethu: Adolygiad o Osod Contract Gofal Cartref i Alpha Care Limited | Adolygiad o'r amgylchiadau a'r materion a arweiniodd at fethiant contract y Cyngor ag Alpha Care Limited i ddarparu gwasanaethau gofal cartref i oedolion. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Llywodraethu: Gwaith dilynol | Adolygiad o brosesau corfforaethol y Cyngor ar gyfer ymateb i adroddiadau rheoleiddio, olrhain y modd y caiff argymhellion eu gweithredu a chyflwyno adroddiadau i'r pwyllgor priodol. |
| AGGCC: Adolygiad o berfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2014-15 | Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor ar gyfer 2014-15. |
| Estyn: Dadansoddiad pen bwrdd | Trosolwg o'r dangosyddion perfformiad addysg allweddol a baratowyd gan Estyn. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Adroddiadau cenedlaethol | • Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru<br>• Partneriaethau diogelwch cymunedol<br>• Cynhyrchu incwm a chodi tâl<br>• Trefniadau'r Cyngor ar gyfer ariannu gwasanaethau trydydd sector |

## Mae'r Cyngor, gyda gwell trefniadau rheoli ariannol, yn parhau i wneud cynnydd yn ei feysydd â blaenoriaeth ond mae ganddo ragor o waith i'w wneud i roi sicrwydd bod ei drefniadau llywodraethu sefydledig yn gadarn

7 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur a sicrhau gwelliant yn ystod 2016-17.

8 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad hwn am fod y Cyngor:

a yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn ei feysydd â blaenoriaeth ac mae'n parhau i gydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009;

b yn gwella ei drefniadau rheoli ariannol ond ei fod yn cydnabod bod angen iddo sicrhau mwy o gysondeb rhwng perfformiad gwasanaethau a pherfformiad ariannol; ac

c am fod ganddo ragor o waith i'w wneud i roi sicrwydd bod ei drefniadau llywodraethu sefydledig yn gadarn a'i fod yn ystyried adroddiadau rheoleiddio allanol yn llawn ac yn mynd i'r afael â hwy.

## Argymhellion

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

10 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol i'r Cyngor. Fodd bynnag, nodir materion â llai o flaenoriaeth, sef cynigion ar gyfer gwella, yn ein hadroddiadau eraill ac mae'n bosibl y cyfeirir atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Mae hefyd yn gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i'r Cyngor yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Ceir rhestr o'r argymhellion a geir yn yr adroddiadau hynny a gyhoeddwyd yn 2015-16 yn Atodiad 3. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant.

11 At hynny, roedd AGGCC wedi cynnydd meysydd i'w gwella yn ei hadroddiadau arolygu a gyflwynwyd i'r Cyngor yn ystod 2015-16. Mae'r rhain ar gael ar wefan AGGCC.

12 Ni chyflwynodd Estyn unrhyw adroddiadau arolygu i'r Cyngor yn ystod 2015-16.

# Adroddiad manwl



# Perfformiad

## Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn ei feysydd â blaenoriaeth ac mae'n parhau i gydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009

### Gwerthusiad Estyn o berfformiad ysgolion ym Mhowys

13 Ym Mhowys y ceir y gyfran isaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ystyrir hyn wrth werthuso'r perfformiad yn y Cyngor.

14 Ers 2012, mae perfformiad wedi gwella'n gyson yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen[1] a'r dangosyddion pynciau craidd ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3. Er bod perfformiad ym mhob un o'r mesurau hyn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, mae'n is na chynghorau tebyg.

15 Yng nghyfnod allweddol 4[2], dros y pum mlynedd diwethaf, mae perfformiad o ran dangosydd lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg a'r sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio wedi gwella, ond ar gyfradd arafach na chyfartaledd Cymru gyfan. Er bod perfformiad yn y mesurau hyn wedi parhau i fod dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, mae'n is na chynghorau tebyg. Dim ond un o feincnodau perfformiad Llywodraeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 a gyflawnwyd gan y Cyngor yn y tair blynedd diwethaf. O blith y 12 o ysgolion uwchradd ym Mhowys, roedd tair o dan fesurau arbennig ar ddechrau 2016.

16 Yn y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn uwch na pherfformiad disgyblion tebyg ledled Cymru.

17 Mae'r lefelau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella ac mae Powys bellach ymhlith yr awdurdodau gorau yng Nghymru.

1 Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn cyfeirio at ganran y disgyblion sy'n cyflawni'r perfformiad disgwyliedig (canlyniad lefel 5) mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen; llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf; datblygiad mathemategol; a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Mae dangosydd pynciau craidd yn cyfeirio at ganran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae hyn yn cyfateb i lefel 4 neu uwch yng nghyfnod allweddol 2 a lefel 5 neu uwch yng nghyfnod allweddol 3. Mae dangosydd lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg yn cynrychioli cyfanswm y dysgu sy'n cyfateb i bum TGAU gradd A* i C gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg.

2 Lle mae'r testun yn cyfeirio at 'brif ddangosyddion', yng nghyfnod allweddol 4 byddai hyn yn cynnwys dangosydd lefel 1 (cyfanswm y dysgu sy'n cyfateb i bum TGAU gradd A* i G), dangosydd lefel 2 (cyfanswm y dysgu sy'n cyfateb i bum TGAU gradd A* i C), a chanran y disgyblion sy'n cyflawni pum TGAU gradd A* i A, yn ogystal â dangosydd pynciau craidd a dangosydd lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg. Y 'prif ddangosyddion' cyn cyfnod allweddol 4 yw dangosydd y Cyfnod Sylfaen a dangosyddion pynciau craidd ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3. Mae'r dangosydd perfformiad ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3 y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar asesiadau athrawon. Mae'r dangosyddion perfformiad ar gyfer cyfnod allweddol 4 yn seiliedig ar gymwysterau a ddilyswyd yn allanol fel TGAU.

## Mae'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n darparu gofal cymdeithasol i bobl Powys ac mae'n goresgyn heriau wrth baratoi ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

18 Cyhoeddodd AGGCC ei Hadolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014/2015 ar gyfer Powys ym mis Hydref 2015 ac mae ar gael ar ei gwefan. Yn seiliedig ar ei gwaith hyd yma, mae AGGCC yn dod i'r casgliad mai ansicr oedd y rhagolygon ar gyfer gwella ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar adeg adolygiad a gynhaliwyd yn 2015 ac roedd cwestiynau o hyd ynglŷn â threfniadau yn y dyfodol yng nghyd-destun gostyngiadau cyllidebol, ond, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen i ddarparu gofal cymdeithasol cadarn yn effeithiol i bobl ym Mhowys, a goresgyn heriau wrth baratoi ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

19 Nododd AGGCC fod y ffordd yr oedd Cyngor Sir Powys wedi mynd ati i gomisiynu gwasanaethau gofal cartref yn 2013 a 2014 yn ddiffygiol o ran cysyniad, dylunio a chyflawni. Ni chafodd y trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau eu rheoli ar uwch lefel ac nid oeddent yn ddigon trylwyr na heriol, yn enwedig o ystyried nifer y bobl a oedd yn dibynnu ar y gwasanaethau hyn a'r risgiau sy'n gysylltiedig â threfniadau trosglwyddo gofal. Nid oedd yr uwch dîm rheoli ar y pryd yn brofiadol ym maes comisiynu gofal cymdeithasol ac erys yn faes heriol o hyd i'r Cyngor, gan ei fod yn parhau i ddibynnu ar ymgynghoriaeth allanol a threfniadau dros dro i gefnogi'r broses o gyflawni'r swyddogaethau allweddol hyn.

20 Nid oedd nifer o gonglfeini allweddol a fyddai wedi bod yn sail i ddarparu gofal a chymorth o'r newydd yn llwyddiannus ar waith, er enghraifft gwasanaeth ail-alluogi cyson ledled y sir a chynlluniau gofal a chymorth unigol cyfredol. O ganlyniad, nid oedd y penderfyniadau a wnaed yn ystod yr ymarfer caffael bob amser yn ystyriol, yn enwedig o ran dadansoddiad o gostau gwirioneddol a buddiannau ac felly gynaliadwyedd.

21 Oherwydd y trefniadau ar gyfer is-gontractio gofal drwy'r prif ddarparwyr nid oedd gan y Cyngor olwg clir ar ansawdd na chysondeb y gofal a ddarparwyd gan yr asiantaethau hyn. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y gofal a oedd ar gael wedi gwella drwy'r trefniadau comisiynu; yn wir, cynyddodd oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty yn ystod 2014-15.

22 Er y cydnabyddir y gall cyfleoedd, partneriaethau a chyllidebau yn aml ysgogi prosesau gwneud penderfyniadau pragmatig, oherwydd diffyg strategaeth gomisiynu gyffredinol a datganiad sefyllfa'r farchnad nid oedd y Cyngor mewn sefyllfa i gynllunio'n effeithiol a phennu ei flaenoriaethau comisiynu a datblygu gwasanaethau. Mae nifer o strategaethau comisiynu bellach yn cael eu datblygu ond roedd y sefyllfa hon yn ddigyfnewid ar y cyfan ar adeg yr adolygiad. Bydd y gwaith o gynllunio map ffordd ar gyfer darparu gofal cartref dros y misoedd nesaf yn hollbwysig, a bydd meithrin cydberthnasau cydweithredol â darparwyr ac ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn a'u gofalwyr yn hanfodol i ganlyniad llwyddiannus.

23 Mae’r farn bod Powys yn unigryw oherwydd ei demograffeg yn cael ei mynegi’n aml gan bobl sy’n byw ac sy’n gweithio yno, ac yn ddi-os ceir ffactorau gwledigrwydd sy’n effeithio ar y ffordd y darperir gwasanaethau. Gall hyn weithiau fod yn rhwystr i feddwl am atebion ac mae wedi creu diwylliant sy’n edrych tuag i mewn yn y Cyngor. Fodd bynnag, Powys yw cyfanswm ei holl rannau, y mae llawer ohonynt yn rhannu nodweddion tebyg â chymunedau eraill yng Nghymru. Mae’r gydberthynas strategol â Bwrdd Addysgu Iechyd Powys yn cynnig llawer o gyfleoedd o ran darparu gwasanaethau a chyfleusterau a rennir, gan gynnwys technoleg gwybodaeth, ond mae hyn hefyd wedi golygu nad yw Powys yn naturiol yn edrych y tu hwnt i’w ffiniau am gyfleoedd i gomisiynu ar y cyd neu gydweithredu. Un o’r heriau allweddol i Gyngor Sir Powys fu recriwtio staff ar bob lefel, ac nid oedd ganddo strategaeth gweithlu ar waith. Rydym ar ddeall bod hyn yn cael ei drafod â phartneriaid allweddol megis Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a sefydliadau sy’n ddarparwyr a bydd yn elfen allweddol o’r broses o gynnig llwybr integredig i bobl hŷn.

24 Siaradodd arolygwyr AGGCC â nifer o bobl ym Mhowys a oedd yn awyddus i rannu eu profiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a’r pryderon difrifol a oedd ganddynt ynglŷn â rhai asiantaethau blaenorol, lle roedd gofalwyr wedi methu â dod i’r cartref neu lle roeddent yn newid o hyd. Dywedodd un perthynas wrthym ei bod wedi byw gyda phryder am ddiogelwch ei mam, ond erbyn hyn roedd yn gallu ymlacio a mynd i’r gwaith am ei bod yn hyderus ynglŷn â dibynadwyedd y darparwyr gofal ac yn gwybod y byddai’r asiantaeth yn cysylltu â hi os oedd unrhyw broblemau.

25 Mae’r fframwaith cytundebol ar gyfer gofal cartref wedi cael ei atal bellach yn ne’r sir ac mae rhywfaint o’r ddarpariaeth, gan gynnwys dros 124 o staff, wedi dychwelyd i’w gwasanaeth mewnol. Mae’r broses drosiannol ddiweddaraf hon wedi cael ei chydgysylltu a’i rheoli’n dda gan y Cyngor a nododd arolygwyr welliant yn ansawdd y gofal sy’n cael ei ddarparu bellach o gymharu â’r llynedd, gyda gwelliannau mawr mewn rhai asiantaethau, yn enwedig o ran cynllunio gofal a pharhad gofalwyr.

26 Mae newidiadau’n cael eu gwneud yn gyflymach ers penodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol parhaol ym mis Gorffennaf 2013 a Phennaeth Gwasanaeth ym mis Hydref 2013. Maent yn wynebu amserlen heriol ac uchelgeisiol iawn i foderneiddio gwasanaethau cymdeithasol ym Mhowys ac mae methiant y fframwaith comisiynu ar gyfer gofal cartref wedi gwneud hyn yn fwy anodd. Felly, mae’r rhagolygon yn ansicr ac erys cwestiynau o hyd ynglŷn â’r trefniadau yn y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun gostyngiadau cyllidebol ac wrth baratoi ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Fodd bynnag, ceir arwyddion o welliant ac mae’r Cyngor yn gweithredu ar argymhellion adroddiad y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, gan gynnwys datblygu pecyn adnoddau comisiynu i’r holl staff.

27 Mae gwelliannau wedi'u gwneud a gydag uwch reolwyr ychwanegol, mae'r rhagolygon yn gwella er gwaethaf y pwysau cyllidebol. Mae wedi buddsoddi cryn dipyn i ail-lunio gwasanaethau er mwyn gwneud yr arbedion sydd eu hangen a gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Ymddengys bod y perfformiad yn y sector gofal cartref yn nodi darlun sy'n gwella wedi parhau. Cynyddodd darpariaeth fewnol y Cyngor y llynedd; gydag atgyfnerthu ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth cyn ystyried y dyfodol yn yr hirdymor.

28 Mae'r Cyngor wrthi'n cwblhau datganiadau sefyllfa'r farchnad a strategaethau comisiynu mewn nifer o feysydd gwasanaeth, gan gynnwys pobl hŷn a llety, technoleg gynorthwyol, anabledd dysgu a gofal cartref. Mae wedi cynnal dadansoddiad manwl o ddemograffig ac angen ym mhob un o wardiau'r Cyngor, gan baru anghenion presennol ac yn y dyfodol â'r adnoddau cyfredol.

29 Drwy hyn mae'r Cyngor wedi gallu rhagweld gostyngiad tebygol yn nifer y lleoedd mewn cartrefi gofal fydd eu hangen o flwyddyn i flwyddyn cyhyd ag y bydd datblygiadau mewn gwasanaethau yn parhau ar y trywydd cywir o ran sefydlogrwydd y farchnad gofal cartref a'r ymdrech barhaus i ddenu darparwyr newydd i'r sir, datblygu gwasanaeth technoleg gynorthwyol effeithiol, galluogi pobl i ddewis taliadau uniongyrchol mewn ardaloedd gwledig anghysbell, a chymorth gwasanaethau trydydd sector. Bydd methiant i gyflawni hyn yn achosi cryn her a risg i'r Cyngor, o ystyried mai hyn yw'r sail dros ail-lunio gwasanaethau i oedolion yn fwy cyffredin.

## Mae'r Cyngor yn parhau i gydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009

30 Mae'r Cyngor, fel mewn blynyddoedd blaenorol, wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur a daeth Tystysgrif Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol ym mis Tachwedd 2015 i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur. Yn benodol:

- a Roedd y Cyngor wedi cyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn ystod 2014-15 yn ei Werthusiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer 2014-2015 (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2015. Roedd yr Adroddiad yn gwerthuso llwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion gwella ac yn mynegi ei farn yn glir.
- b Roedd yr Adroddiad yn cynnwys gwybodaeth i ddinasyddion a chymunedau a oedd am roi adborth neu wneud sylwadau ar yr Adroddiad.
- c Roedd yr Adroddiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2014-15) ac yn nodi sut roedd y Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur.
- ch Roedd yr Adroddiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y'u mesurwyd gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol.
- d Roedd yr Adroddiad yn cynnwys manylion am y ffyrdd yr oedd y Cyngor wedi ceisio cydweithredu.

31 Rydym wedi nodi o'r blaen bod angen i'r Cyngor sicrhau bod ei drefniadau hunanwerthuso yn gadarn ac wedi'u hategu gan adnoddau priodol. Ers ein Hadroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, comisiynodd y Cyngor adolygiad annibynnol o'i broses gynllunio gorfforaethol a arweiniodd at Gynllun Powys yn Un, a lywiwyd gyda'n cymorth. Nododd yr adolygiad hwn fod angen symleiddio trefniadau Byrddau Rhaglen sy'n cefnogi'r broses o gyflawni Cynllun Powys yn Un; i ddatblygu Cynllun Corfforaethol sy'n nodi'n glir uchelgeisiau ac atebolrwyddau'r Cyngor o ran cyflawni Cynllun Powys yn Un; ac i ymgorffori'r broses o integreiddio â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn well y tu hwnt i'r uwch dîm rheoli. Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu ac yn mireinio ei drefniadau Rheoli Rhaglenni er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd y trefniadau newydd hyn mewn perthynas â chyflawni'r blaenoriaethau a rennir a nodwyd yng Nghynllun Powys yn Un 2014-17 fel rhan o'n rhaglen archwilio ar gyfer 2016-17.

32 Comisiynodd y Cyngor PricewaterhouseCoopers hefyd i gynnal adolygiad strategol o adran Gofal Cymdeithasol Oedolion Cyngor Sir Powys, gan gynnwys systemau rheoli busnes a gwybodaeth o fewn yr adran. Mae ei adroddiad yn rhoi sefyllfa gynhwysfawr, wedi'i mapio o gostau'r gwasanaetha ac yn rhoi llinell sylfaen dda ar gyfer trawsnewid yn y dyfodol. Mae'n cynnig glasbrint i'r adran Gofal Cymdeithasol Oedolion yn y dyfodol, gan gynnwys ffactorau ysgogi allweddol, risgiau a chyfleoedd; achos ariannol dros wneud y newid; cynllun gweithredu lefel uchel ar gyfer y broses drawsnewid hon.

33 Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus o ran y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau. Daeth **Tystysgrif Cynllun Gwella** yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2015 i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur.

## Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran cyflawni ei flaenoriaethau a rennir ac er bod ei berfformiad cyffredinol yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol wedi dirywio dros y flwyddyn flaenorol mae wedi cadw ei safle o'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru ar y cyfan

34 Mae Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad y Cyngor yn gwerthuso perfformiad a chynnydd yn erbyn ei 11 o flaenoriaethau a rennir a phedair blaenoriaeth y Cyngor fel mater o drefn[3]. Mae'r Cyngor wedi gwneud 62 o ymrwymiadau i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn (dros y cyfnod 2014-17) a daeth ei hunanasesiad o gynnydd ar gyfer 2014/15 o ran cyflawni yn erbyn pob ymrwymiad i'r casgliad ei fod wedi bod yn 'llwyddiannus' mewn 35% o'i 62 o ymrwymiadau, 'yn rhannol lwyddiannus' mewn 63% ac 'aflwyddiannus' mewn 2%. Dylid nodi nad yw'r Cyngor na'i bartneriaid yn disgwyl cyflawni eu holl ymrwymiadau eto gan fod y cynllun yn cwmpasu tair blynedd.

3 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Powys yn Un 2014-2017. Mae hwn yn gynllun ar gyfer newid rhwng pob partner ym Mwrdd Gwasanaethau Lleol Powys.

35 Ym mis Medi 2015, gwnaeth Llywodraeth Cymru ac Uned Data Cymru ryddhau'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol ar gyfer 2014-15 a'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus ar gyfer pob un o'r 22 o Gynghorau yng Nghymru ar eu ffurf gyhoeddedig derfynol. Dengys y data hwn fod perfformiad mesuredig y Cyngor, yn gyffredinol, wedi dirywio o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, er bod y perfformiad hwn yn golygu ei fod yn cadw ei safle ar y cyfan o'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru (gweler Arddangosyn 1).

36 Dengys y data, yn ystod 2014-15, fod perfformiad y Cyngor:

a wedi gwella mewn perthynas â 19 o'i ddangosyddion (o gymharu â 25 yn 2013-14);

b wedi dirywio mewn perthynas â 21 o'i ddangosyddion (o gymharu â 13 yn 2013-14);

c yn y 'chwartel uchaf' mewn perthynas â 14 o'i ddangosyddion (o gymharu â 15 y cant yn 2013-14); ac

ch yn y 'chwarter isaf' mewn perthynas â 10 y cant o'i ddangosyddion (o gymharu â 10 y cant yn 2013-14).

37 Nid oes unrhyw wasanaeth penodol yn gyfrifol am y newidiadau hyn gan fod gan y rhan fwyaf o wasanaethau ddangosyddion perfformiad sy'n gwella ac yn dirywio. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn perthynas â dau o'r mesurau allweddol yn haeddu cael sylw manwl gan y Cyngor. Fel y nodir uchod, cynyddodd oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty yn ystod 2014-15, gan roi'r Cyngor yn safle 22 o blith y 22 o gynghorau yng Nghymru mewn perthynas â'r mesur hwn (safle 20 yn 2013-14). Hefyd, dirywiodd y ganran o wastraff trefol a gasglwyd gan y Cyngor ac a baratowyd i'w ailddefnyddio a/neu'i ailgylchu i 52.07 y cant yn 2014-15 (o gymharu â chyfartaledd Cymru o 56.24%) gan roi'r Cyngor yn safle 19 o blith y 22 o gynghorau yng Nghymru mewn perthynas â'r mesur hwn.

38 Mae'r Cyngor wrthi'n llunio ei Gynllun Gwella Corfforaethol ar gyfer 2016-17, a bydd hwn yn cynnwys targedau a chynlluniau gweithredu i sbarduno gwelliant mewn perfformiad mewn perthynas â'r mesurau hyn a mesurau eraill.


39 Mae data gan Arolwg Cenedlaethol Cymru yn atgyfnerthu'r farn hon am berfformiad cymharol. Dirywiodd canfyddiadau'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor ychydig rhwng 2013-14 a 2014-15[5]. O ganlyniad i hyn, symudodd y Cyngor o safle 10 allan o 22 i safle 13 yn 2014-15, o ran yr agwedd benodol honno ar yr arolwg.

4 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys tua 12,000 o bobl y flwyddyn o bob cwr o Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r canlyniadau i helpu i wneud Cymru yn lle gwell i fyw.


5 Yn 2014-15, dywedodd 51 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ym Mhowys eu bod naill ai'n cytuno'n gryf, neu'n tueddu i gytuno, fod eu hawdurdod lleol yn darparu gwasanaethau o safon uchel o gymharu â 56 y cant yn 2013/14.

## Arddangosyn 1: Perfformiad Powys – 2014-15 DSCau a MACau

### Sut mae perfformiad Powys wedi newid dros amser?




### Sut mae perfformiad Powys yn cymharu â chynghorau eraill yng Nghymru?[6]




Ffynhonnell: Yr Uned Ddata Llywodraeth Leol - Canolfan Feincnodi, Medi 2015

6 Mae cynghorau sy'n perfformio'n well yng Nghymru yn cael eu cynnwys yn y Chwartel Uchaf ac mae cynghorau sy'n perfformio'n waeth yng Nghymru yn cael eu cynnwys yn y Chwartel Isaf.

## Gwerthusiad Comisiynydd y Gymraeg o berfformiad

40 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

41 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor arnynt. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.The Commissioner included areas for improvement in its inspection reports and letters issued to councils during the year.

42 Gwnaeth y Comisiynydd gynnwys meysydd i'w gwella yn ei hadroddiadau arolygu a'r llythyrau a gyflwynwyd i gynghorau yn ystod y flwyddyn.Mae'r rhain ar gael ar ei gwefan.

# Y defnydd o adnoddau

## Mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau rheoli ariannol ond mae'n cydnabod bod angen iddo sicrhau mwy o gysondeb rhwng perfformiad gwasanaethau a pherfformiad ariannol

Mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau rheoli ariannol ac yn cael y budd o graffu a herio cynyddol drylwyr ond mae'n cydnabod bod angen iddo sicrhau mwy o gysondeb rhwng perfformiad gwasanaethau a pherfformiad ariannol er mwyn bod yn hyderus o gyflawni ei flaenoriaethau gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo

43 Cynhaliwyd ein hasesiad o gyfnerthed ariannol y Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng mis Mai a mis Hydref 2015 a gwneud gwaith dilynol ar y materion a nodwyd yn y gwaith ar y sefyllfa ariannol yn 2014-15. Canolbwyntiodd y gwaith ar y broses o gyflawni cynlluniau arbedion 2014-15 a chyfnod cynllunio 2015-16. Canolbwyntiodd ein gwaith ar ateb y cwestiwn canlynol: A yw'r Cyngor yn rheoli gostyngiadau cyllidebol yn effeithiol er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol?

44 Yn gyffredinol, daethom i'r casgliad bod y Cyngor yn gwella ei drefniadau rheoli ariannol gyda'r budd o graffu a herio mewnol cynyddol drylwyr, ond mae'n cydnabod bod angen iddo sicrhau mwy o gysondeb rhwng perfformiad gwasanaethau a pherfformiad ariannol a'i fonitro er mwyn bod yn hyderus o gyflawni ei flaenoriaethau gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo. Daethom i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein canfyddiadau mewn perthynas â threfniadau cynllunio ariannol, rheolaeth ariannol a llywodraethu ariannol. Nodir ein canfyddiadau isod.

a mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu a mireinio ei ddull hirdymor o gynllunio ariannol, gan weithio i'w integreiddio a'i gysoni â'i waith cynllunio newid corfforaethol a gwelliant;

b er bod trefniadau rheoli ariannol cyffredinol y Cyngor yn ddigonol, mae trefniadau ar gyfer craffu ar berfformiad gwasanaethau a pherfformiad ariannol ar y cyd yn dal i fod yn llai effeithiol; ac

c mae trefniadau llywodraethu ariannol y Cyngor sy'n cael eu datblygu yn arwain at graffu a herio mewnol cynyddol drylwyr o ran y ffordd y mae'n pennu ei gyllideb a'i berfformiad ariannol.

45 Er mwyn ateb yr her o drawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau gyda llai adnoddau ariannol a galw cynyddol, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth comisiynu a chaffael benodol iawn. Argymhellodd ein hadroddiad ar osod y contract gofal cartref (gweler isod) y dylai'r Cyngor ystyried a yw'r materion a nodwyd yn berthnasol yn fwy cyffredinol i'r broses o roi ei strategaeth comisiynu a chaffael ar waith yn llwyddiannus. Mae hefyd yn argymell y dylai'r Cyngor gynnal adolygiad o'i brosesau ar gyfer datblygu a gosod contractau mawr. Rydym yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer datblygu ymarferion contractio, craffu arnynt a'u cymeradwyo yn briodol ac yn gweithio.

46 Cyflwynwyd ein Hasesiad o Gydnerthedd Ariannol ar gyfer 2015-16 i'r Cyngor ym mis Mawrth 2016. Cafodd ein hadroddiad ei dderbyn a'i nodi gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 15 Ebrill 2016[7]. Bwriedir datblygu Cynllun Gweithredu i ymateb i'r meysydd gwan a nodwyd yn yr adroddiad a chaiff hwn ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio cyn ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo.

## Archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Powys

47 Ar 30 Tachwedd 2015, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

48 Pan roddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ddiamod ar gyfrifon 2014-15 ar 30 Medi 2015, esboniodd na ellid dod â'r archwiliad i ben yn ffurfiol nes bod ei adolygiad o Ofal Cartref wedi cael ei gwblhau. Mae'r adolygiad hwnnw bellach wedi cael ei gwblhau ac mae adroddiad wedi ei gyhoeddi a'i ystyried gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ar 4 Chwefror 2016. Yn sgil hyn ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol i'r Cyngor ar 2 Mawrth 2016 yn cadarnhau bod archwiliad 2014-15 o gyfrifon y Cyngor bellach wedi'u cwblhau yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

7 Mae'r adroddiad llawn ar gael ar **wefan y Cyngor.**

# Llywodraethu

## Mae gan y Cyngor ragor o waith i'w wneud i roi sicrwydd bod ei drefniadau llywodraethu sefydledig yn gadarn a'i fod yn ystyried adroddiadau rheoleiddio allanol yn llawn ac yn mynd i'r afael â hwy

### Mae'r Cyngor yn cydnabod, wrth iddo ruthro i gyflwyno'r gwasanaeth gofal cartref newydd, i uniondeb ei drefniadau llywodraethu sefydledig gael ei beryglu ac mae wrthi'n ceisio lliniaru'r risgiau canlyniadol

49 Ym mis Mawrth 2014, dyfarnodd y Cyngor gontractau i bedwar darparwr gofal cartref ar ôl tendr cystadleuol: dau yng ngogledd y sir, a dau yn y de. Bu'r broses o roi tri o'r contractau a ddyfarnwyd ar waith yn heriol, gan arwain at derfynu dau gontract drwy gytundeb y naill ochr a'r llall, a therfynu contract Alpha Home Care Support Service Limited.

50 Ar ddiwedd 2014, hysbysodd Alpha Home Care Support Services Limited y Cyngor fod y cwmni mewn anawsterau ariannol difrifol. Er mwyn sicrhau parhad gofal i'w gleientiaid oedrannus a oedd yn agored i niwed, rhoddodd y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi Alpha Home Care Support Services Limited.

51 Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion y Cyngor i helpu'r sefydliad i wella ei hyfywedd ariannol, terfynwyd y contract ar ddechrau mis Ebrill 2015 ar ôl i'w berfformiad ddirywio'n sylweddol ac ar ôl i'r Cyngor ddod i'r casgliad nad oedd Alpha Home Care Support Services Limited yn ariannol hyfyw mwyach.

52 Cafodd methiant y contract hwn gryn sylw ymhlith y cyhoedd a'r cyfryngau gan beri i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal adolygiad archwilio o'r amgylchiadau a'r materion a arweiniodd at fethiant y contract. Cyflwynwyd ein hadroddiad Review of the Letting of a Domiciliary Care Contract to Alpha Care Limited  i'r Cyngor ym mis Ionawr 2016, a nodir ein canfyddiadau isod.

53 Mae'r Cyngor wedi bod yn pryderu ers sawl blwyddyn bod datblygiad gwasanaethau gofal cartref ym Mhowys yn anghyson a bod angen gwella ansawdd a gwerth am arian y gwasanaeth. Penderfynodd y Cyngor ystyried ffyrdd amgen o gomisiynu'r gwasanaeth. Ar ddiwedd 2013, ceisiodd y Cyngor ddatblygu a gweithredu'r trefniadau newydd ar gyfer y gwasanaeth yn gyflym. Mewn amgylchiadau lle ceir terfynau amser tynn, mae sicrhau y caiff y risg ei rheoli'n effeithiol a bod trefniadau atebolrwydd ar waith yn arbennig o bwysig. Yn seiliedig ar ganfyddiadau ein hadolygiad, daethom i'r casgliad i uniondeb trefniadau llywodraethu sefydledig y Cyngor gael ei beryglu wrth iddo ruthro i gyflwyno'r gwasanaeth gofal cartref newydd mor gyflym â phosibl. O ganlyniad, cafodd y Cyngor a defnyddwyr y gwasanaeth gofal cartref eu hamlygu i risg ddiangen.

54 Daethom i'r casgliad hwn am fod ein hadolygiad wedi canfod y canlynol:

a Roedd y trefniadau llywodraethu, rheoli a chraffu a sefydlwyd i gaffael y gwasanaeth gofal cartref yn annigonol:

- cafodd tendr 2014 ei ddyfarnu'n rhy gyflym, gan olygu nad oedd digon o amser i graffu ar y cynigion a'u profi;
- roedd diffyg eglurder a thrylwyredd yn y broses gwneud penderfyniadau ynglŷn â chaffael y gwasanaeth; ac
- roedd diffyg eglurder o ran rheoli prosiect a threfniadau atebolrwydd.

b Roedd gwendidau ac amwysedd yn y Gwahoddiad i Dendro yn golygu nad oedd yn addas o ran sicrhau bod tendrau cadarn yn cael eu cyflwyno gan ddarpar ddarparwyr:

- arweiniodd y penderfyniad i benodi dau ddarparwr ar gyfer yr un ardal at gystadleuaeth am adnoddau staff prin;
- cyflwynodd strwythur y contract ormod o ansicrwydd i dendrwyr gan gynyddu'r risg y byddai'r darparwr yn methu;
- nid oedd yr ystod o gyfraddau yr awr a nodwyd yn y Gwahoddiad i Dendro yn gadarn ei sylfaen;
- roedd diffyg eglurder yn y Gwahoddiad i Dendro o ran y llwyth gwaith a oedd ar gael i ddarparwyr a'i ddosbarthiad;
- cafodd y llwyth gwaith amcangyfrifedig a nodwyd yn y Gwahoddiad i Dendro ei orddatgan;
- roedd dosbarthiad daearyddol y llwyth gwaith a nodwyd yn y Gwahoddiad i Dendro yn anghywir;
- ni roddodd y Gwahoddiad i Dendro unrhyw wybodaeth am hyd ymweliadau; ac
- arweiniodd strwythur sgorio'r gwahoddiad i dendro at lefelau uchel o is-gontractio ac, yn achos Alpha, effeithiodd hynny'n sylweddol ar allu'r cwmni i adennill ei orbenion.

c Gyda ffocws corfforaethol cryf ar ddefnyddio ei adnoddau yn effeithiol, wedi'i ategu gan drefniadau cynllunio gwasanaethau a llywodraethu cadarnach, mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i oresgyn rhai heriau sylweddol yn y dyfodol.

- nid oes unrhyw dystiolaeth i'r Awdurdod werthuso'r holl wybodaeth y gofynnwyd i'r tendrwyr ei chyflwyno yn y Gwahoddiad i Dendro; a

- thrwy gynnwys cyfraddau yr awr ar gyfer ‘oriau mewnol’ yn y gwerthusiad o dendrau cafodd canlyniadau’r gwerthusiadau eu haflunio.

ch Ceisiodd y Cyngor helpu Alpha i gyflawni’r contract, ond aflwyddiannus fu’r ymdrechion hyn:

- ceisiodd y Cyngor gefnogi llif arian Alpha drwy dalu elfennau y cytunwyd arnynt o anfonebau yr oedd anghydfod yn eu cylch;
- rhoddodd y Cymorth gymorth ymarferol arall i helpu Alpha; a
- pharhaodd y Cyngor i helpu Alpha nes iddi ddod yn amlwg nad oedd Alpha yn gynaliadwy.

55 Mae ein hadroddiad yn gwneud tri argymhelliad penodol a hefyd, yng ngoleuni ein canfyddiadau, rydym o’r farn y dylai’r Cyngor adolygu prosiectau mawr eraill sy’n cael eu datblygu ar hyn o bryd a rhoi sicrwydd iddo’i hun nad yw’r pryderon a nodwyd gennym o ran llywodraethu ac atebolrwydd yn ymestyn yn fwy cyffredinol.

56 Mae Uwch Dîm Rheoli a Chabinet y Cyngor wedi derbyn yr argymhellion yn ein hadroddiad ac maent yn bwriadu gweithredu arnynt fel mater corfforaethol o fewn yr agenda wella gyffredinol. Caiff cynllun gweithredu manwl a datganiad cynnydd eu cyflwyno i’r Uwch Dîm Rheoli yn rheolaidd a’u monitro drwy’r Bwrdd Comisiynu a Chaffael. Caiff gwaith goruchwylio a chraffu ei wneud drwy’r Pwyllgor Archwilio a’r Pwyllgor Craffu Pobl – Gweithgor Gofal Cymdeithasol Oedolion. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor wrth iddo weithredu ar ein hargymhellion.

57 Mae’r Cyngor hefyd yn cydnabod bod ein hadroddiad yn tanlinellu pwysigrwydd buddsoddi mewn gallu ac adnoddau i gyflawni prosiectau mawr. Yn 2014, cytunodd y Cyngor i sefydlu uned Gwasanaethau Masnachol i gefnogi cynlluniau comisiynu a chontractio cyfarwyddiaethau. Nod y tîm oedd datblygu arbenigedd mewnol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn llai dibynnol ar gymorth comisiynu allanol. Mae’r Cyngor yn bwriadu adolygu’r cynnydd hyd yn hyn er mwyn asesu gallu ac adnoddau’r uned i gyflawni’r rhaglen waith heriol.

58 Mae’r gwaith o oruchwylio prosiectau mawr wedi dod yn gorfforaethol drwy fwy o oruchwylio a herio gan y Bwrdd Comisiynu a Chaffael. Mae’r Bwrdd bellach yn cael blaengynllun ac mae’n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Arweinydd. Un dasg allweddol i’r Bwrdd fydd ceisio sicrwydd bod tendrau mewn perthynas ag unrhyw brosiectau mawr a gynhelir fel rhan o ddull y Cyngor Comisiynu wedi cael eu gwerthuso’n effeithiol.

## Mae gan y Cyngor ragor o waith i'w wneud i roi sicrwydd bod adroddiadau rheoleiddio allanol yn cael eu hystyried yn llawn a'i fod yn cymryd camau mewn ymateb i'r argymhellion, lle y bo'n briodol

59 Mae Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r Pwyllgor yn cael adroddiadau gan Archwilwyr Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru a gall wneud argymhellion i'r Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu. Mae gan y Pwyllgor Is-grŵp Cyllid a Pherfformiad sy'n cael adroddiadau ariannol a pherfformiad rheolaidd ac sy'n gwneud argymhellion o ganlyniad i adolygu'r adroddiadau hyn. Mae'r Pwyllgor yn cael adroddiad chwarterol ar drefniadau rheoli risg y Cyngor. Mae gan y Pwyllgor Is-grŵp Archwilio Mewnol hefyd sy'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn derbyn pob adroddiad barn anffafriol h.y. y rhai sydd â sicrwydd cyfyngedig neu sicrwydd isel. Ei brif ddiben yw olrhain cynlluniau gweithredu er mwyn sicrhau y caiff camau unioni effeithiol ac amserol eu cymryd.

60 Mae'r Cyngor yn dosbarthu adroddiadau cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru i swyddogion priodol, pwyllgorau a, lle y bo'n briodol, i Fyrddau Rhaglen. Erys trefniadau dosbarthu yn hyblyg, yn enwedig lle y bydd gan ein hadroddiadau cenedlaethol oblygiadau posibl i gynulleidfa fewnol ehangach. Mae'r dull hwn o weithredu yn helpu i sicrhau bod swyddogion ac Aelodau yn ymwybodol o adroddiadau ac argymhellion cysylltiedig sy'n effeithio ar eu meysydd cyfrifoldeb.

61 Caiff canfyddiadau allweddol ac argymhellion sy'n deillio o'n hadroddiadau lleol a chenedlaethol, a'r rhai a wneir gan reoleiddwyr perthnasol eraill eu cofnodi yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor. Caiff y rhain, ynghyd â materion a nodir gan yr Archwilwyr Mewnol, eu hystyried gan y Cyngor wrth bennu'r Materion Llywodraethu Sylweddol a'r heriau y mae angen iddo fynd i'r afael â hwy. Yn achos ein hadroddiadau ar astudiaethau lleol a chenedlaethol mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2014-15 yn rhestru adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn (ond mae'r rhestr yn anghyflawn) ac yn nodi bod eu cynnwys a'u canfyddiadau'n cael eu hystyried a bod camau priodol yn cael eu cynllunio lle y bo angen.

62 Rydym wedi gweld enghreifftiau lle mae'r Cyngor yn ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion a geir yn ein hadroddiadau, ac adroddiadau rheoleiddwyr perthnasol eraill, yn briodol ac yn ymateb iddynt ar ffurf cynlluniau gweithredu y mae'r Cabinet yn eu cymeradwyo ac yna'n craffu arnynt. Eleni, mae enghreifftiau o'r fath yn cynnwys adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ac AGGCC ar Gomisiynu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion, ac Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gydnerthedd Ariannol.

63 Fodd bynnag, nodwn o'n gwaith dilynol ar yr argymhellion sy'n deillio o bum adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2014-15 fod ystyriaeth o'r fath yn anghyson ledled y Cyngor ac nad oedd rhai gwasanaethau yn gweld yr adroddiadau cenedlaethol hynny a oedd yn berthnasol

i’w meysydd gwasanaeth. Adlewyrchwyd hyn yng nghwmpas ac ansawdd y sylwadau a wnaed gan y Cyngor mewn perthynas â chamau gweithredu arfaethedig a/neu a gymerwyd i fynd i’r afael â’n hargymhellion.

64 Mae’r Cyngor yn cydnabod y byddai’n fuddiol pe bai ganddo ffordd fwy ffurfiol o adolygu a chofnodi ei ystyriaeth o argymhellion adroddiadau lleol a chenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru. Er enghraifft, nid oes dull rhagnodedig o adrodd ar gynnydd yn erbyn camau y cytunwyd arnynt fel mater o drefn; gall swyddogion roi adborth i bwyllgor priodol, ond mae hyn yn digwydd ar sail ad hoc. Mae angen mwy o sicrwydd ar y Cyngor fod pob adroddiad rheoleiddio allanol wedi cael ei ystyried yn y pwyllgorau Aelodau priodol a bod camau wedi’u cymryd mewn ymateb i’r argymhellion, lle bo’n briodol.

65 Mae Canolfan Treiddgarwch Corfforaethol y Cyngor wrthi’n ceisio cyflawni amcan gwella a bennwyd ar gyfer 2015-16 i weithredu proses well o dderbyn ac ymateb i argymhellion gan bwyllgorau craffu a rheoleiddwyr y Cyngor, gan sicrhau bod y gwaith o fonitro camau canlyniadol yn cael ei ymgorffori mewn adroddiadau gwella safonol. Mae’r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

66 O’n rhan ni, byddwn yn profi effeithiolrwydd trefniadau’r Cyngor ymhellach yn ystod rhaglen archwilio’r flwyddyn nesaf. Bwriadwn wneud gwaith dilynol ar gamau a gymerir gan y Cyngor i fynd i’r afael â’r canfyddiadau allweddol a’r argymhellion a geir yn ein Hadolygiad o Reoli Diffygion Cyllidebau Ysgolion Uwchradd, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2012. Hefyd, ers cyhoeddi’r Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf mae pum Adroddiad Cenedlaethol arall ar gyfer Llywodraeth Leol sy’n cynnwys argymhellion a all fod yn berthnasol i’r Cyngor wedi cael eu cyhoeddi. Nodir yr argymhellion hyn yn Atodiad 3 a byddwn yn gwerthuso’r ffordd y mae’r Cyngor yn eu hystyried ac yn ymateb iddynt.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Barry Thomas
Arweinydd
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Annwyl Gynghorydd Thomas

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Powys 2014-15**

Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2015, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 28 Medi 2015, a chyflwynwyd llythyr rheoli manylach ar ffurf ddrafft sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwella.

Y materion allweddol a nodwyd gennyf oedd:

- Nodwyd gwelliannau yn ansawdd y Datganiadau Ariannol drafft a'r papurau gwaith ategol.
- Canfuwyd gwall perthnasol o £27.6 miliwn o ganlyniad i'n profion archwilio. Roedd hyn yn ymwneud â Thaliadau Mewnol a ailgodir nas dilëwyd o'r Cyfrif Incwm a Gwariant, a hon oedd yr ail flwyddyn yn olynol i wall o'r fath gael ei nodi. Cywirwyd y gwall yn y Datganiadau Ariannol llofnodedig.
- Yn fy marn i, nid yw'r elfennau rydych yn eu cofnodi ar hyn o bryd yn y Cyfrifon Masnachu yn weithgareddau masnachu a bod yn fanwl gywir, gan nad oes ond ychydig o daliadau allanol yn cael eu cynhyrchu (os o gwbl). Argymhellais y dylech ystyried a oes angen y nodiadau a'r trefniadau cyfrifyddu mewnol hyn yn y dyfodol.

**Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau**

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau.

**Nid wyf eto wedi cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod y broses o archwilio'r cyfrifon wedi'i chwblhau**

Rydym wrthi'n cynnal adolygiad o Gaffael Gofal Cartref ac yn ystyried gohebiaeth gan aelod o'r cyhoedd. Er fy mod yn fodlon na fyddai'r gwaith hwn wedi cael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol a fy mod yn gallu rhoi barn ddiamod, ni ellir cau'r archwiliad nes bod ein holl waith wedi'i gwblhau.

**Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015-16 na systemau ariannol allweddol**

Bydd adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau yn dilyn yn ystod mis Chwefror 2016 unwaith y bydd rhaglen gwaith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol, yn amodol ar adolygiad gan y Swyddog Arweiniol Ymgysylltu.

Yn gywir

**Anthony Barrett**
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

cc. Jeremy Patterson, Prif Weithredwr
David Powell, Cyfarwyddwr Strategol – Adnoddau

# Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Y cydnerthedd ariannol mewn cynghorau | A1 Dylai cynghorau sicrhau bod eu cynllun corfforaethol:<br>• wrth wraidd y broses o lywio cynlluniau gwasanaeth a strategaethau ategol eraill gan gynnwys y gweithlu, technoleg gwybodaeth a gwariant cyfalaf;<br>• yn cynnal blaenolwg tair i bum mlynedd o leiaf a'i fod yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolig a strategaethau ategol eraill; a<br>• dylai nodi'n glir rôl ddymunol y cyngor mewn pum mlynedd – y model ar gyfer darparu gwasanaethau â blaenoriaeth a'r seilwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau yn y dyfodol o fewn y cyllid sydd ar gael.<br>A2 Dylai'r cynllun ariannol tymor canolig nodi'r prif risgiau ariannol a thybiaethau allweddol a dylai uwch swyddogion a chynghorwyr graffu arnynt a'u herio'n effeithiol cyn mabwysiadu'r cynllun.<br>A3 Mae angen i gynghorau sicrhau bod diffygion ariannol yn cael eu rhagamcanu'n gywir a'u cysoni'n llawn â chynlluniau arbed manwl ar gyfer pob blwyddyn o oes y cynllun ariannol tymor canolig.<br>A4 Dylai cynghorau adolygu digonolrwydd y trefniadau sicrwydd ariannol sy'n sail i gyflawni cynlluniau arbed blynyddol, gan gynnwys lefel y gwaith craffu a herio a gynigir gan gynghorwyr.<br>A5 Dylai cynghorau sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig fel rhan o'u Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>A6 Dylai cynghorau ddatblygu polisïau cwbl gorfforaethol ar gynhyrchu incwm gyda'r nod o gynyddu ffrydiau refeniw a lleihau pwysau ariannol.<br>A7 Dylai cynghorau:<br>• atgyfnerthu trefniadau pennu a monitro cyllidebau er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol; ac<br>• adolygu cwmpas ac effeithiolrwydd eu systemau a'u rheolaethau ariannol mewnol ac allanol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi rhybudd cynnar am wendidau mewn systemau allweddol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Y cydnerthedd ariannol mewn cynghorau | A8 Rhaid i gynghorau adolygu eu timau cyllid a sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau a gallu i fodloni gofynion yn y dyfodol.<br>A9 Mae angen i swyddogion cynghorau sicrhau bod gan gynghorwyr y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni gwaith llywodraethu a herio effeithiol drwy ymestyn cyfleoedd hyfforddi a llunio gwybodaeth reoli o ansawdd uchel. |
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A1 Egluro natur a gweithrediad y consortia. Nodwyd gennym fod ansicrwydd parhaus ynglŷn â rhai agweddau ar natur consortia rhanbarthol a'u cwmpas nawr ac yn y dyfodol (paragraffau 2.2 i 2.20). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• Dylai awdurdodau lleol egluro a yw gwasanaethau consortia i'w darparu ar y cyd neu a ydynt yn wasanaethau a gomisiynir (mae gwasanaethau a ddarperir dan drefniadau cydbwyllgor yn wasanaethau a ddarperir ar y cyd ac nid yn wasanaethau a gomisiynir).<br>A2 Canolbwyntio ar ddeilliannau trwy gynllunio tymor canolig.<br>Nodwyd gennym fod pwyslais ar gamau byrdymor ac ansicrwydd ynglŷn â dyfodol consortia yn amharu ar ddatblygiad effeithiol y consortia rhanbarthol (paragraffau 2.33 i 2.36; 3.16 i 3.17). Rydym yn argymell felly:<br>• Gan na fydd unrhyw weithgareddau posibl i ad-drefnu awdurdodau lleol yn cael eu gweithredu'n llawn tan 2020, y dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol ddatblygu cynlluniau tair blynedd ar gyfer datblygu, ehangu cwmpas a chyllido consortia rhanbarthol, yn gysylltiedig ag amcanion strategol priodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A3 Datblygu mwy o gydberthnasau cydweithredol ar gyfer y system gwella ysgolion. Roedd llawer o bartneriaid gwella ysgolion yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ond canfuwyd nad oedd hyn wedi arwain at feithrin perthnasau digon cydweithredol (paragraffau 2.25 i 2.32). Rydym yn argymell felly:<br>• y dylai consortia rhanbarthol ddatblygu trefniadau gwell ar gyfer rhannu arferion a chefnogi effeithlonrwydd (er enghraifft, gallai un consortiwm arwain y gwaith o ymdrin â phroblem neu fod â chyfrifoldeb swyddogaethol ar gyfer datblygu polisi).<br>• y dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gydnabod bod yr holl bartneriaid yn ddibynnol ar ei gilydd er mwyn cyflawni eu swyddogaethau gwella ysgolion a chytuno ar ddull o:<br>– rannu gwybodaeth ac ymgynghori ar ddatblygiadau sy'n berthnasol i wella ysgolion;<br>– datblygu perthnasau cydweithredol sy'n rhannu atebolrwydd; a<br>– chynnal adolygiadau o'r system gyfan ac alinio dealltwriaeth a safbwynt y consortia rhanbarthol ar draws pob un o strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru.<br>A4 Datblygu arweinwyr effeithiol a denu'r unigolion mwyaf dawnus. Mae consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wedi cael anawsterau wrth recriwtio uwch arweinwyr addysg a chanfuwyd mai ychydig iawn o gamau a oedd wedi eu cymryd i ymdrin â hyn (paragraffau 2.37 i 2.40). Rydym yn argymell felly:<br>• y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio i wneud swyddi addysg arweiniol yn fwy deniadol er mwyn denu'r arweinwyr mwyaf dawnus ar gyfer y system gwella addysg; ac<br>• y dylai awdurdodau lleol gydweithio i gefnogi datblygiad proffesiynol yr uwch arweinwyr a sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad ar waith ar gyfer uwch arweinwyr. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A5 Gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli consortia rhanbarthol. Er bod datblygiadau parhaus yn cael eu gwneud, canfuwyd nad yw consortia rhanbarthol wedi datblygu trefniadau llywodraethu a rheoli cyllid cwbl effeithiol hyd yn hyn (paragraffau 3.2 i 3.36). Rydym yn argymell felly y dylai awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol:<br>• wella eu defnydd o hunanwerthuso ar gyfer eu perfformiad a'u trefniadau llywodraethu a'i ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o gynllunio busnes ac i gefnogi adolygiadau blynyddol o ddulliau llywodraethu er mwyn llywio eu datganiadau llywodraethu blynyddol;<br>• gwella eu dulliau rheoli perfformiad gan gynnwys cynllunio busnes yn well, defnyddio mesurau perfformiad eglur a mesuradwy ac asesu gwerth am arian;<br>• sicrhau bod rheoli risg strategol yn rhan annatod o'u trefniadau llywodraethu a chyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ar lefel y cydbwyllgor neu'r bwrdd;<br>• datblygu eu trefniadau rheoli ariannol i sicrhau bod prosesau cyllidebu, monitro ac adrodd ariannol yn cwmpasu'r holl incwm a gwariant perthnasol, gan gynnwys cyllid grant a wariwyd trwy awdurdodau lleol;<br>• datblygu trefniadau craffu ar y cyd ar gyfer y consortia yn gyffredinol yn ogystal â chraffu ar berfformiad gan awdurdodau unigol, a allai gynnwys sefydlu cydbwyllgor craffu neu waith cydgysylltiedig gan bwyllgorau craffu awdurdodau lleol;<br>• sicrhau bod y trefniadau a'r penderfyniadau y mae consortia yn eu gwneud yn agored ac yn dryloyw;<br>• cydnabod ac ymdrin ag unrhyw wrthdaro buddiannau posibl; a phan fo gan staff fwy nag un cyflogwr, dylai consortia rhanbarthol sicrhau bod y llinellau atebolrwydd yn eglur a bod yr holl staff yn ymwybodol o'r swyddogaethau a gyflawnir; a<br>• datblygu strategaethau cyfathrebu cadarn ar gyfer ymgysylltu â'r holl randdeiliaid allweddol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru | A1 Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>• penodi uwch swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a<br>• dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid.<br>A2 Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y Cyngor.<br>A3 Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chydymffurfio â pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant; ;<br>• creating an integrated corporate compliance system to record and monitor compliance levels on DBS checks; and<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y Cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth.<br>A4 Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth a'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r Cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y Cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru | A5 Wrth adolygu canllawiau, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r hyn mae'n disgwyl o awdurdodau lleol ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau'r swyddog dynodedig mewn gwasanaethau addysg, a'r unigolyn a enwwyd ar lefel uwch reolwr sy'n gyfrifol am hybu diogelu.<br>A6 Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y Cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor.<br>A7 Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r Cyngor.<br>A8 Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y Cyngor. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hyn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A1 Gwella llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yng nghyswllt materion pobl hŷn drwy:<br>• benodi uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am gydgysylltu ac arwain gwaith y Cyngor ar wasanaethau i bobl hŷn;<br>• ailalinio gwaith cydgysylltwyr y strategaethau pobl hŷn er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn;<br>• penodi aelod yn hyrwyddwr gwasanaethau pobl hŷn; a<br>• diweddaru gwybodaeth am y penodiadau hyn yn rheolaidd, a rhannu'r wybodaeth honno'n rheolaidd â'r holl staff a rhanddeiliaid.<br><br>A2 Gwella'r gwaith cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch gwasanaethaui bobl hŷn yn well drwy:<br>• sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n trafod gwaith holl adrannau perthnasol y Cyngor a gwaith rhanddeiliaid allanol y tu allan i iechyd a gofal cymdeithasol; ac<br>• ymgysylltu â phreswylwyr a phartneriaid wrth ddatblygu cynlluniau, ac wrth ddatblygu a chytuno ar flaenoriaethau.<br><br>A3 Gwella'r ymgysylltu â gwybodaeth i bobl hŷn a'r trefniadau ar gyfer lledaenu'r wybodaeth honno, drwy sicrhau bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi'u cyflunio'n briodol ac yn bodloni anghenion y sawl sy'n eu derbyn.<br><br>A4 Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol drwy:<br>• bennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i farnu ynghylch cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu yn holl wasanaethau'r Cyngor;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol, ac yn enwedig y rhai y tu allan i'r gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; a<br>• sefydlu dulliau mesur i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith, fel bo modd deall effaith toriadau cyllideb a chefnogi gwaith goruchwylio a chraffu. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hyn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A5 Sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb drwy:<br>• nodi sut y bydd newid gwasanaethau neu dorri cyllidebau'n effeithio ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• mesur yr effaith bosibl a'r camau lliniaru a gyflawnir er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• nodi'r niferoedd posibl y byddai'r newidiadau arfaethedig neu'r polisi newydd effeithio arnynt, drwy nodi'r effaith ar rai a chanddynt nodweddion gwarchodedig; a<br>• sicrhau bod gweithgarwch ategol, megis arolygon, grwpiau ffocws ac ymgyrchoedd gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddeall yn glir sut y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithiol arnynt.<br><br>A6 Gwella'r rheolaeth ar y Gronfa Gofal Canolraddol, ac effaith y gronfa honno drwy:<br>• bennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad ar ddechrau prosiectau fel bo modd barnu ynghylch effaith y prosiectau hynny dros amser;<br>• cytuno ar fformat a chwmpas adroddiadau monitro fel bo modd cynnal gwerthusiadau cymaradwy o brosiectau a ariennir yn erbyn meini prawf y gronfa, er mwyn barnu pa brosiect sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol a faint o gynlluniau sydd wedi cael eu prif ffrydio i dderbyn cyllid craidd; a<br>• gwella'r ymgysylltu a'r ystod lawn o bartneriaid er mwyn sicrhau bod amrywiaeth mor eang ag sy'n bosibl o bartneriaid yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A1 Gwella gwaith cynllunio strategol yn y gwasanaethau hamdden drwy:<br>• bennu gweledigaeth gytunedig y Cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• canolbwyntio ar sefyllfa'r Cyngor oddi mewn i ddarpariaeth chwaraeon a hamdden gymunedol ehangach yr ardal; ac<br>• ystyried y posibilrwydd o gyflenwi gwasanaethau'n rhanbarthol.<br><br>A2 Cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn canfod y model cyflenwi mwyaf priodol yn seiliedig ar weledigaeth gytunedig y Cyngor a'i flaenoriaethu ar gyfer gwasanaethau hamdden. Dylai'r arfarniad ystyried:<br>• faint o gyllid cyfalaf a refeniw sydd ar gael dros y tair i bum mlynedd nesaf;<br>• opsiynau i wella ffocws masnachol gwasanaethau hamdden;<br>• cyfleoedd i gynyddu'r incwm a gynhyrchir a lleihau 'cymhorthdal' cynghorau;<br>• dadansoddiad cost a budd o'r holl opsiynau sydd ar gael i gyflenwi gwasanaethau hamdden yn y dyfodol;<br>• cyfraniad gwasanaethau hamdden at rôl ehangach y Cyngor o ran iechyd y cyhoedd;<br>• ymgysylltu'n well â'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod safbwyntiau ac anghenion defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr yn cael eu nodi'n glir;<br>• effaith opsiynau gwahanol ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; a<br>• chynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A3 Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad gwasanaethau hamdden drwy sefydlu cyfres o fesurau er mwyn galluogi swyddogion, aelodau a dinasyddion i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith. Dylai hyn drafod perfformiad yr holl Gyngor a pherfformiad cyfleusterau penodol a chynnwys:<br>• gwariant cyfalaf a refeniw;<br>• incwm;<br>• ‘cymhorthdal’ y Cyngor;<br>• ansawdd y cyfleusterau a’r gwasanaeth a ddarperir;<br>• bodlonrwydd cwsmeriaid;<br>• llwyddiant mentrau ‘masnachol newydd’;<br>• data defnydd – y nifer sy’n defnyddio’r gwasanaethau/cyfleusterau, amserau defnydd ac ati; ac<br>• effaith cyfleusterau hamdden wrth ymdrin â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd.<br><br>A4 Gwella’r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yn y gwasanaethau hamdden drwy:<br>• adrodd yn rheolaidd ar berfformiad wrth bwyllgor(au) craffu;<br>• darparu gwybodaeth gynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn hwyluso proses benderfynu gadarn;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill; a<br>• defnyddio canfyddiadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol i ganfod cyfleoedd i wella gwasanaethau. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru